

DATGANIAD MYNEDIAD

Trosolwg

Mae Parc Gwledig Bryngarw yn cynnig 113 erw o barcdir arobryn, sy'n cynnwys dolydd blodau gwyllt, pyllau, gwlyptiroedd, coetiroedd, gerddi wedi'u hysbrydoli gan Japan a man hamdden, y mae dros 220,000 o ymwelwyr yn eu mwynhau bob blwyddyn.

Rheolir ystad Bryngarw, gan gynnwys Tŷ Bryngarw a B-Leaf, gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, elusen gofrestredig, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae parciau cyhoeddus a mannau gwyrdd o fewn cymunedau yn ei wneud i iechyd a lles corfforol, cymdeithasol a meddyliol pobl. Rydym wedi ymrwymo i wneud Parc Gwledig Bryngarw yn hygyrch i bawb. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi mewn gwelliannau i'r llwybrau,

toiledau hygyrch ac offer chwarae cynhwysol. Byddwn yn parhau i wella hygyrchedd i ymwelwyr nad ydynt yn gallu symud yn dda, lle bynnag y bo modd. Yn anffodus, mae topograffi naturiol Parc Gwledig Bryngarw, sydd wedi'i leoli ar lan Afon Garw yn golygu bod rhai cyfyngiadau. Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau eich ymweliad. Os oes gennych gwestiynau penodol na atebwyd isod, awgrymiadau ar gyfer gwella'r wybodaeth hon neu eich bod ei hangen mewn print bras neu iaith arall, cysylltwch â swyddfa'r parcmyr ar 01656 725155.

Cyrraedd Parc Gwledig Bryngarw

Mae prif fynedfa Parc Gwledig Bryngarw drwy bentref Brynmenyn. Mae ffordd yn fynedfa yn rhedeg o'r prif gatiâu i'r maes parcio i ymwelwyr, sy'n gallu darparu ar gyfer 120 o geir a thri bws.

Mae mannau parcio ychwanegol y tu allan i Dŷ Bryngarw a B-Leaf ond fel arfer maent wedi'u cadw ar gyfer cwsmeriaid a gwesteion.

Mae tri lle i bobl anabl ac mae parcio am ddim i unrhyw un sy'n arddangos bathodyn glas yn eu car.

Toiledau

Mae cyfleuster newid gyda theclyn codi uwchben a gwely wedi'i osod ar y wal wedi'i leoli yn y ganolfan ymwelwyr.

Mae uned newid babanod yn y fan hon hefyd. Nid oes angen allwedd RADAR i fynd i'r cyfleusterau hyn.

Canolfan Ymwelwyr, Caffi a Chanolfan Addysg a Lles Y Nyth

Mae'r adeiladau hyn yn gwbl hygyrch.

Mae ramp i ddrws Y Nyth o ochr y caffi ar gyfer mynediad cadair olwyn. Mae byrddau hygyrch i gadeiriau olwyn y tu allan i'r caffis at ddefnydd cwsmeriaid.

Ardal Chwarae i Blant

Mae llwybr hygyrch o'r maes parcio ymwelwyr i'r ardal chwarae i blant, lle byddwch yn dod o hyd i fyrddau picnic hygyrch i gadeiriau olwyn a siglen gynhwysol, rowndabowt a thrampolîn i blant mewn cadeiriau olwyn neu nad ydynt yn gallu symud yn dda.

Mae angen allwedd RADAR ar y siglen cadair olwyn.

Llwybrau

Mae map sy'n dangos y llwybrau o amgylch Parc Gwledig Bryngarw ar gael o'r ganolfan ymwelwyr a gellir ei lawrlwytho o'n tudalen we www.bryngarwcountrypark.co.uk

Mae'r llwybr mwyaf hygyrch yn rhedeg i'r gogledd o'r maes parcio, heibio'r pwll hwyaid a Thŷ Bryngarw a thua'r Ardd Natur, sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Nid yw'r llwybr sy'n rhedeg y tu ôl i Dŷ Bryngarw i lawr i'r gerddi sydd wedi'u hysbrydoli gan Japan, ar hyd glan yr afon lle mae'n ymuno â'r llwybr beicio 884 yn ôl i fyny i'r maes parcio, yn aml yn gwbl hygyrch oherwydd topograffi'r ddaear, y cerrig rhydd dan draed ac effaith y tywydd. Nid yw'r llwybrau pren drwy'r coetiroedd yn

hygyrch i gadeiriau olwyn a dylai defnyddwyr ffon gerdded a chymhorthion symudedd eraill fod yn ymwybodol bod y llwybrau'n anwastad. Ar adegau, mae'r holl lwybrau wedi'u gorchuddio â dail wedi cwmpo, gan eu gwneud yn arwynebau llithrig yn ystod y tywydd priodol. Mae rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau troed llai sy'n rhedeg trwy brif gynefinoedd y parc, ond nid yw'r rhain yn hygyrch i bobl mewn cadeiriau olwyn.

Ymwelwyr Dall/Nam ar eu Golwg

Gallwn argraffu ac anfon copïau o'n rhaglen digwyddiadau yn y parc mewn print mawr ar gais, neu archebu fersiynau Braille ac wedi'u recordio o daflenni'r parc, gan gynnwys taflen ddiwyddiadau'r parc.

E-bostiwch marketing@awen-wales.com. Gellir defnyddio ein gwefan (www.bryngarwcountrypark.co.uk) gyda darllenwyr sgrin a gellir cynyddu / lleihau maint y ffont a newid y cyferbyniad lliw.

NEED MORE HELP?

Everyone's access needs are different.


If you need extra information, help or advice in order to get around the park and enjoy your visit, don't hesitate to ask.

Call our rangers' office on **01656 725155**.

awen



INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Silver
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Ariar



Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com